**Teitl y Swydd: Ysgogydd Gweithredu Bwyd**

**Cyflogwr** – Aber Food Surplus Ltd, Aberystwyth, Cymru
**Tâl Gros** – £1,250 y mis (yn seiliedig ar £30,000 y flwyddyn pro rata)
**Hyd y contract** – Cyfnod penodol yn unol â'r cyllid presennol: Mehefin/Gorffennaf 2024–Chwefror 2026
**Oriau gwaith** – 16 awr yr wythnos, gyda 4 ohonynt yn fore dydd Mawrth (sylwch y bydd angen rhywfaint o waith gyda'r nos ac ar benwythnosau)
**Yn atebol i** – Cyfarwyddwyr / Grŵp Cyd-ddylunio, tîm Staff a thîm Gwirfoddolwyr Bwyd Dros Ben Aber
**Hawl gwyliau** – 16.5 diwrnod
**Pensiwn** – Mae Bwyd Dros Ben Aber yn defnyddio Cynllun Pensiwn Nest ar gyfer gwneud cyfraniadau pensiwn
**Dyddiad cau am geisiadau**: Dydd Sul, 9 Mehefin 2024
**Dyddiadau Cyfweliadau:** Sicrhewch eich bod ar gael ar gyfer cyfweliad ddydd Iau, 13 Mehefin a dydd Gwener, 14 Mehefin 2024

Bydd y swydd yn cael ei chyflawni ar hyd a lled ardal Aberystwyth o Hwb Rhannu Bwyd ECO, swyddfa, neu o bell (o gartref) i weddu i anghenion y tîm, ac efallai y bydd disgwyl i chi deithio i leoliadau eraill o amgylch Aberystwyth, Ceredigion a Chymru.

**<u>Cyflogwr – Bwyd Dros Ben Aber</u>**
Mae Bwyd Dros Ben Aber yn fenter gymdeithasol ddielw o dan arweiniad y gymuned ac a gaiff ei hysgogi gan yr amgylchedd. Mae wedi'i lleoli yn Aberystwyth.

Ein pwrpas yw grymuso newid systemau bwyd dan arweiniad y gymuned trwy gyfleoedd gwirfoddoli arloesol ac ystyrlon sy'n cymryd camau rhagweithiol ar newid hinsawdd a'r system fwyd leol, wrth roi Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith. Mae ein gwaith yn canolbwyntio ar gamau gweithredu tymor byr sy'n galluogi newid systemig ehangach yn y tymor hwy tuag at system fwyd fwy cylchol. Mae effaith ein gwaith yn galluogi buddion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol a chefnogaeth i'n heconomi fwyd leol wrth adeiladu system fwyd sy'n fwy gwydn ac adfywiol.

Ymhlith y gweithgareddau y mae tîm Bwyd Dros Ben Aber yn eu cefnogi mae: Ailddosbarthu bwyd dros ben i leihau effaith amgylcheddol gwastraff bwyd a galluogi effaith gymdeithasol; compostio i wneud pridd ar gyfer tyfu bwyd; digwyddiadau a gweithgareddau garddio Tyfu Aber Grow;

digwyddiadau cymunedol, gweithdai coginio ac allgymorth addysgol; a Hwb Bwyd Dyfi, siop leol ac organig sy'n cefnogi prisiau teg i dyfwyr lleol ac yn ysgogi'r farchnad fwyd leol.

Mae Bwyd Dros Ben Aber yn ymarfer strwythur gwastad ac, fel rhan o'r tîm, fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn cyfarfodydd cyd-ddylunio a chyfrannu syniadau tuag at redeg y sefydliad yn llwyddiannus. Rydym yn gwerthfawrogi eich cyfraniad. Yn ogystal, rydym yn parchu, yn cefnogi ac yn cadw at gydbwysedd bywyd a gwaith cadarnhaol ac iach sy'n annog egwyliau rheolaidd ac amser awyr agored, gan roi eich lles wrth galon yr hyn a wnawn.

**<u>Ynglŷn â'r prosiect</u>**

Yn 2022, fe wnaethom sicrhau arian sylweddol ar gyfer prosiect 3.5 mlynedd gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol i ehangu'r fenter a datblygu gofod cymunedol ac amgylcheddol mwy. Bydd y gofod hwn yn hwb bwyd ac amgylcheddol ffyniannus. Bydd yn cryfhau'r berthynas rhwng pob rhan o'n system fwyd, fel gofod lle mae cynhyrchwyr bwyd, busnesau, a dinasyddion yn dod at ei gilydd ac yn cysylltu.

Mae'r prosiect wedi ymrwymo i ddefnyddio dulliau cyfranogol i:

- Gael mewnwelediad hanfodol ar yr effaith y gall cydweithredu cymunedol ei chael wrth greu atebion arloesol, hanfodol a gwydn ar gyfer yr hinsawdd a llesiant;
- Dod â sgiliau ynghyd i ddatblygu gwytnwch ariannol y gofod/prosiect;
- Deall sut y gall gweithredwyr cymunedol, pobl greadigol ac entrepreneuriaid ddefnyddio'r gofod yn fwyaf effeithiol er eu budd eu hunain a'r gymuned ehangach.

Ein gweledigaeth yw creu llwyfan grymusol a chyffrous i'n cymuned ffynnu a gweithredu tuag at newid amgylcheddol cadarnhaol a byd mwy prydferth.
- A yw'r weledigaeth hon yn cysylltu â'ch gwerthoedd? Os ydyw, parhewch i ddarllen.

**<u>Ynglŷn â'r swydd – rolau a chyfrifoldebau</u>**

Bydd yr Ysgogydd Gweithredu Bwyd yn dylunio, hysbysebu a chyflwyno amrywiaeth o weithgareddau sgiliau bwyd, gan gynnwys rhannu amrywiaeth o dechnegau cadw, a datblygu cynhyrchion gwerth ychwanegol. Bydd y swydd hefyd yn arwain ar arlwyo mewn digwyddiadau allanol ac yn hwyluso cyd-chwaraewyr gwirfoddol i gefnogi'r ymdrech arlwyo. Y bwriad yw, trwy feithrin sgiliau sy'n ymwneud â bwyd a hyder yn ein cymuned, y byddwn yn meithrin gwytnwch, ac yn helpu i sicrhau bod pobl Aberystwyth yn llai tebygol o wastraffu bwyd. Mae hon yn swydd hanfodol a chyffrous sy'n cynnwys ymwneud â'r gymuned yn uniongyrchol a dull egnïol sy'n canolbwyntio ar atebion.

Mae pedair prif elfen i'r rôl:

1. **Gweithredu amgylcheddol – rhannu sgiliau sy'n ymwneud â bwyd; archwilio newid systemau bwyd;**

Bydd y gweithdai sgiliau bwyd/arddangosiadau/arlwyo (lle bo'n briodol) y byddwch yn eu datblygu a'u cyflwyno yn cynnwys y canlynol:

- Byddant yn cynnwys neges amgylcheddol / â'r system fwyd yn greiddiol iddynt
- Byddant yn cael eu hysbysebu mewn amrywiaeth o gyfryngau, ac mewn modd amserol

- Byddant yn galluogi gwirfoddolwyr ac aelodau’r cyhoedd i ennill sgiliau ymarferol newydd (e.e. paratoi bwyd sylfaenol; defnyddio bwyd dros ben mewn ffyrdd newydd; bwyta’n dymhorol; technegau cadwedigaeth amrywiol; ffyrdd o ddefnyddio bwydydd dadhydredig ac ati)
- Byddant yn esblygu mewn ymateb i angen a diddordeb cymunedol
- Byddant yn ysbrydoli cariad at fwyd a'r amgylchedd, yn dathlu diwylliant bwyd, ac yn annog cysylltiadau â chynhyrchwyr bwyd lleol
- Byddant yn hygyrch o ran cynnig dysgu i'r rhai sydd ag ystod o lefelau sgiliau presennol
- Byddant yn hygyrch o ran cost cynhwysion – rydym yn cydnabod yr argyfwng costau byw, ac yn credu ei bod yn bwysig i aelodau'r gymuned allu cymhwyso sgiliau newydd yn ymarferol yn eu bywyd cartref
- Byddant yn cael eu cefnogi gan gynllunio diogelwch trylwyr mewn perthynas â diogelwch bwyd ac asesiadau risg ehangach
- Byddant yn cael eu rhannu gyda’r gymuned ehangach (e.e. ar ffurf cardiau ryseitiau / blogiau ac ati)

Rydym hefyd yn cynnal 'Hwb Bwyd Dyfi', man adwerthu arloesol sy'n gwerthu bwyd organig a lleol o ansawdd uchel wedi'i gynhyrchu gan amaeth-ecoleg. Mae’r fenter gymdeithasol adwerthu hon yn gweithio i ddarparu pris teg i gynhyrchwyr (gydag ychydig iawn o farciau i gwsmeriaid), gan gefnogi dulliau cynhyrchu sy’n garedig i’r amgylchedd a thosturiol, gan fyrhau milltiroedd bwyd, a darparu mynediad at fwyd o ansawdd uchel i’n cymuned.
Ein nod yw dathlu ac ysgogi marchnad leol ar gyfer bwyd da, a mwy o gynnyrch garddwriaethol lleol. Elfen ychwanegol yr ydym yn awyddus i’w harchwilio yw datblygu amrywiaeth o gynhyrchion gwerth ychwanegol i’w gwerthu o’r siop ar-lein hon.
Bydd y cynhyrchion gwerth ychwanegol yn:

- Defnyddio cynhwysion sydd ar werth ar Hwb Bwyd Dyfi
- Cymryd i ystyriaeth y cynigion presennol sydd ar gael gan ein cynhyrchwyr
- Cael eu cynhyrchu yn unol â'r holl ofynion cyfreithiol, ac yn unol â Chanllaw Cynhyrchwyr Hwb Bwyd Dyfi
- Gweithredu fel astudiaeth achos / enghraifft ymarferol ar gyfer cynhyrchwyr lleol posibl eraill

## 2. Man Diogel a Chroesawgar

Rydym yn ymdrechu i annog pobl i nodi ffyrdd y gellir gwella'r system fwyd, ac i ddod o hyd i ffyrdd ymarferol o roi newid ar waith. Mae’r Hwb yn lle nid yn unig ar gyfer prosesu bwyd, ond hefyd ar gyfer ymwneud ag aelodau’r gymuned fel cyfranogwyr ac actifyddion yn y system fwyd – mae’n hanfodol eich bod yn gallu rhoi croeso cynnes i bawb, bod yn ymatebol a hyblyg.
Er mwyn gallu cyflawni ein gwaith yn effeithiol, mae'n hanfodol ein bod yn cadw (a, gobeithio, yn gwella) ein dynodiad fel Man Diogel i Fwyd (mae gennym sgôr Hylendid Bwyd o 4 ar hyn o bryd, a hoffem gynyddu hwn i 5); byddwch yn:

- Paratoi coginio unwaith yr wythnos y gellir ei oeri neu ei rewi i ddarparu cinio iach i dîm o tua 60 o wirfoddolwyr trwy gydol yr wythnos.
- Gweithio o fewn systemau presennol, a bod yn gyfrifol am ddatblygu arferion diogelwch bwyd a gwaith papur cysylltiedig, gan sicrhau bod gweithgareddau’n cael eu cynnal mewn ffordd sy’n ddiogel o ran bwyd, yn hylan, wedi’i hategu gan dystiolaeth ddogfennol.

- Sicrhau bod cyfranogwyr yn ymwybodol o weithdrefnau diogelwch bwyd a'u pwysigrwydd, a threfnu eu cyfranogiad mewn hyfforddiant Diogelwch Bwyd lle bo'n briodol.
- Cynhyrchu Asesiadau Risg a glynu at Ddiogelu a pholisïau a gweithdrefnau cysylltiedig.

Mae disgwyl i bob aelod o'r tîm gadw at ein Cod Ymddygiad, ac annog aelodau'r gymuned i ddefnyddio a rhannu bwyd/gofod gyda heddwch, cariad, undod a pharch at ei gilydd a'r blaned. Wrth i'n hwb ddod yn brysurach, mae'r tîm ehangach yn archwilio'r cysyniad o *Beth yw rhannu teg yn ymarferol?* Unwaith y cytunir arno, caiff ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl weithgareddau.
Cnoi Cil – byddwch yn cymryd rhan mewn archwilio ffyrdd o gyfleu negeseuon cymhleth mewn ffyrdd cyffrous yn weledol, wrth adael lle i archwilio a syniadau pobl eraill.

3. **Adrodd a gwerthuso**

Mae'r swydd hon yn cynnwys gweithio gyda chyd-chwaraewyr a gwerthuswr i gyflawni a dogfennu canlyniadau prosiect penodol sy'n ymwneud â lleihau gwastraff bwyd (ymrwymiadau a wnaed i'r cyllidwyr – Cronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol). Byddwch yn cydweithio i gasglu adborth a data, ac archwilio newid ymddygiad ac effaith gweithredu bwyd cymunedol. Cofnodi nifer y mynychwyr; pwysau'r cynhyrchion a ddefnyddir; effeithiau dysgu; bydd angen i ddyfyniadau ac astudiaethau achos ddod yn ail natur i chi, yn ogystal â dehongli ac egluro pwyntiau dysgu.

4. **Grymuso Gwirfoddolwyr**

Grymuso gwirfoddolwyr a'r gymuned ehangach, gan gynnwys cefnogi recriwtio a sefydlu gwirfoddolwyr, hwyluso cyfarfodydd, mentora, ac ymagwedd gadarnhaol at weithio gyda'r gymuned. Mae llawer o'n gweithgareddau a'n cyfleoedd yn cael eu harwain neu eu hysbrydoli gan wirfoddolwyr, ac mae'n bwysig bod sgiliau ac arbenigedd gwirfoddolwyr yn cael eu parchu, eu dathlu a'u hannog.

**Disgwyliadau ynghylch Cyfathrebu ac Allgymorth**

Mae cyfathrebu mewnol ac allanol effeithiol yn hanfodol i sut mae ein tîm prosiect yn gwneud penderfyniadau, yn rheoli risgiau, ac yn byw ei werthoedd. Ymdrechwn i fod yn agored, gonest a theg, ac ymdrechwn i wneud hyn trwy alluogi cyfle cyfartal i gael mynediad at wybodaeth, darparu adborth ac ar gyfer cymryd rhan mewn sgyrsiau gwneud penderfyniadau. Byddwch yn datblygu cyfathrebu allanol yn unol â'n nodau i annog cyfranogiad, dathlu gweithredu amgylcheddol, ac adlewyrchu ein dulliau gweithredu, cyfrannu at y cyfryngau cymdeithasol, ein gwefan, newyddiaduraeth leol, a thrwy sgyrsiau a chyflwyniadau sydd i gyd yn elfennau allweddol o'r swydd hon.

**<u>Manyleb y Person</u>**

Rydym yn croesawu ymgeiswyr sydd ag angerdd am gynaliadwyedd a diddordeb mewn bwyd. Nodweddion y gobeithiwn eu gweld yn y tîm: y gallu i addasu; uchelgais; y gallu i gydweithio; tosturi; chwilfrydedd; brwdfrydedd; arweinyddiaeth; canolbwyntio ar bobl; angerdd; y gallu i hunanfyfyrio.

Fel cyflogwr cynhwysol, rydym yn annog ceisiadau gan bobl o bob cefndir. Os ydych chi'n teimlo nad ydych chi'n bodloni'r holl feini prawf, ond yn gallu gweld eich hun yn rhagori yn y swydd, mae croeso i chi wneud cais.

| **Meini prawf** | **Hanfodol** | **Dymunol** |
|---|---|---|
| Cymwysterau / Addysg / Hyfforddiant | Tystysgrif Diogelwch Bwyd Lefel 2 (neu barodrwydd i gwblhau) | Tystysgrif Lefel 3 Diogelwch Bwyd |
| | Tystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gwaith (neu barodrwydd i gwblhau) | Tystysgrif Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl |
| | | Hyfforddiant diogelu |
| Profiad | Trefnu digwyddiadau neu gyflwyno gweithdai cysylltiedig â bwyd; gan gynnwys marchnata digidol | Hwyluso trafodaethau gan ddefnyddio dulliau cyfranogol; democratiaeth gydgynghorol, cyd-ddylunio ac ati. |
| | Profiad arlwyo a thrin bwyd mewn digwyddiadau; prosesu, coginio, cadw, storio, labelu | |
| | Dylunio a darparu gofod cegin diogel o ran bwyd / system rheoli cegin bwyd diogel gan gynnwys asesiadau risg | |
| | Gwirfoddoli neu gydlynu gwirfoddolwyr | Darparu hyfforddiant / mentora / hyfforddi (gan gynnwys gwerthuso ac adborth) |
| | Y gallu neu brofiad o weithio gydag ystod amrywiol o unigolion neu grwpiau gan gynnwys grwpiau lleiafrifol a/neu bobl ar y cyrion | Gweithio ar brosiect a ariennir yn allanol / dielw / trydydd sector / menter gymdeithasol (gan gynnwys monitro ac adrodd) |
| Sgiliau / Rhinweddau | Sgiliau Cymraeg sylfaenol neu barodrwydd i ddysgu | Yn gallu siarad Cymraeg, ac ysgrifennu yn Gymraeg (pwyntiau bonws!) |
| | Y gallu i ysgogi ac ysbrydoli, gan feithrin perthnasoedd da gyda gwirfoddolwyr, cwsmeriaid, grwpiau cymunedol a rhanddeiliaid allanol | |
| | Y gallu i weithio'n annibynnol, yn llawn cymhelliant, gyda sgiliau rheoli amser da | |
| | Sgiliau cyfrifiadurol: prosesu geiriau; e-bost; cyfryngau cymdeithasol. Yn | Hyrwyddo a marchnata |

| | | |
|---|---|---|
| | gallu/yn fodlon dysgu am gyfres o raglenni Google; cynnal cyfarfodydd ar-lein | |
| | Sgiliau ysgrifennu (yn ddeniadol ac yn ramadegol gywir) | Llunio ceisiadau am gyllid |
| Gwybodaeth | Gwybodaeth neu ddealltwriaeth o gynaliadwyedd, newid ymddygiad a datblygu cymunedol | Ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o newid systemau a meddwl systemau, yng nghyd-destun newid systemau bwyd |
| | | Gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys y 7 Nod Llesiant a'r 5 Ffordd o Weithio |

**Sut i wneud cais** – Cyflwynwch CV cyfredol a Llythyr Eglurhaol (dim mwy na 2 dudalen) sy'n dweud wrthym pam rydych chi'n gwneud cais am y swydd hon, pam yr hoffech weithio gyda Bwyd Dros Ben Aber, a sut rydych chi'n bodloni'r gofynion ar gyfer y rôl hon.

Yn ogystal, meddyliwch am weithdy neu arddangosiad yn ymwneud â bwyd yr hoffech ei gyflwyno, a chyflwynwch hysbyseb ar gyfer y gweithgaredd hwn – gallai hyn fod ar ffurf poster, neu bost cyfryngau cymdeithasol; gofynnir i ymgeiswyr sy'n cael eu dewis ar gyfer cyfweliad roi rhagor o wybodaeth am sut y byddant yn mynd ati i gyflwyno'r gweithgaredd.

Anfonwch hwn i Bwyd Dros Ben Aber, Ystafell 2, Tŷ Loveden, Stryd y Bont, Aberystwyth, SY23 1QB, neu e-bostiwch afscommunityhub@gmail.com. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd neu'r drefn ymgeisio, mae croeso i chi e-bostio cwestiynau atom, neu drefnu galwad yn ôl.

Diolch am ystyried gwneud cais i Bwyd Dros Ben Aber. Edrychwn ymlaen at glywed gennych!

Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd a ydynt wedi'u dewis i fynd ymlaen i'r cam cyfweld.

Ariennir y swydd hon gan Gronfa Gymunedol y Loteri Genedlaethol.